WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2009-10

Ionawr 2011

**Awdur: Anthony Barrett** **Cyf: 103A2011**

# Llythyr Archwilio Blynyddol 2009-10

# **Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Llythyr Manwl** | |
| **Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir, ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol** | 6 |
| Gweithredodd yr Awdurdod o fewn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2009-10, ond mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol | 7 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol cadarn | 8 |
| Roedd prif systemau ariannol yr Awdurdod yn addas at y diben | 8 |
| **Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau** | 8 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 10 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2009-10 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 11 |
| Cyflawni ein gwaith | 12 |
| Ffi archwilio | 13 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.


Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn crynhoi'r casgliadau o'm harchwiliad ar gyfer 2009-10. Mae'r llythyr yn cyflwyno adroddiad i aelodau'r Awdurdod ynglŷn ag unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill. Nodwyd y gwaith y cyflwynir adroddiad arno yn y Llythyr Archwilio Blynyddol (y Llythyr) yn y Strategaeth Amlinellol y cytunwyd arni ar gyfer 2009-10 (gweler Atodiad 3).
2. Gwneir nifer o gyfeiriadau yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod). Roedd hyn yn berthnasol i'r flwyddyn archwilio gyfan ac mae'n cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.
3. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r gwaith archwilio wedi'i strwythuro o amgylch elfennau allweddol fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod.
4. Daeth fy ngwaith archwilio ariannol i'r casgliad bod adnoddau'r Awdurdod, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio'n briodol ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol yn 2009-10 a bod:
    - cyfrifon yr Awdurdod wedi'u paratoi'n briodol ac, ar ôl eu newid, roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
    - yr Awdurdod wedi gweithredu o fewn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2009-10, ond mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol;
    - trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith gan yr Awdurdod;
    - systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn addas at y diben.
5. Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ac mae ganddo drefniadau corfforaethol priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.
6. Cytunwyd ar y Llythyr hwn gyda'r Trysorydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a swyddogion perthnasol eraill. Caiff y Llythyr ei gyflwyno i Awdurdod yr Heddlu ar 11 Chwefror 2011 a chaiff copi ei roi i bob aelod o'r Awdurdod.

7. Fy nod yw rhoi archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Awdurdod ei hun. Rwyf yn cydnabod pa mor werthfawr yw eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd yn ystod yr archwiliad.



Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

Dyddiad: 6 Ionawr 2011

## Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir, ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol

8. Y datganiadau ariannol yw'r ffordd hanfodol i'r Awdurdod roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
9. Ar 30 Medi 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.
10. Cafodd cyfrifon yr Awdurdod eu paratoi'n briodol ac, ar ôl eu newid, roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol. Cafodd datganiadau ariannol drafft yr Awdurdod eu paratoi a'u cymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2010, yn unol â gofynion Rheoliad Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.
11. Mae'n ofynnol i mi yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r ‘rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2010 a cheir crynodeb ohonynt yn Arddangosyn 1 isod.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd. | Nid oes unrhyw addasiadau disgwyliedig i dystysgrif nac adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd yn y datganiadau ariannol.<br>Er i nifer o gamddatganiadau, gan gynnwys un hepgoriad perthnasol, gael eu nodi fel rhan o'r archwiliad, cytunodd y rheolwyr i newid y rhain ym mhob achos.<br>Cafodd rhestr o newidiadau i'r datganiadau ariannol drafft ei pharatoi gan y Trysorydd a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio cyn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo.<br>Roedd yr hepgoriad perthnasol yn ymwneud â'r methiant i gronni cost lawn rhwymedigaethau o dan Gynllun Budd-daliadau Anafiadau yr Heddlu o ryw £38 miliwn. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yn ystod yr archwiliad. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Erys un maes nad yw wedi'i ddatrys o hyd mewn perthynas â'r driniaeth gyfrifyddu a roddir i Awdurdodau Heddlu Cymru (PAW) sef cydbwyllgor statudol a sefydlwyd yn 2007 sy'n cynrychioli pedwar awdurdod yr heddlu yng Nghymru.<br>Er nad yw'r symiau dan sylw yn rhai sylweddol, mae'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (SORP) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfran y cytunwyd arni o asedau incwm a gwariant a rhwymedigaethau Awdurdodau Heddlu Cymru yn cael ei ddatgan yn natganiadau ariannol yr Awdurdod Heddlu. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Nid oes unrhyw faterion i gyflwyno adroddiad arnynt. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill o ddiddordeb llywodraethu sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Nid oes unrhyw faterion perthnasol eraill I i gyflwyno adroddiad arnynt. |

12. Ar 30 Medi 2010 rhoddais fy marn ar gyfrifon yr Awdurdod. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2010 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

13. Gofynnwyd i chi gyflwyno ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan nas archwiliwyd i Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth y Cynulliad erbyn 16 Gorffennaf 2010. Cwblhawyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn brydlon ac rydym wedi cwblhau ein harchwiliad o'r ffurflen. Nid oedd unrhyw faterion o bwys i gyflwyno adroddiad arnynt o ganlyniad i'n gwaith.

## Gweithredodd yr Awdurdod o fewn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2009-10, ond mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol

14. Mae'r Trysorydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar alldro'r gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2009-10. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos fod yr Awdurdod wedi cynnal ei gofnod da o gadw cynlluniau gwario yn gyson â'r arian sydd ar gael. Roedd gwariant cyfalaf yn unol â'r ffigurau cyllideb a ailddatganwyd ar y cyfan a chaiff y tanwariant ar y gyllideb gyfalaf ei gario ymlaen i 2010-11, ynghyd â'r arian sydd ar gael.

15. Dengys adroddiad a baratowyd gan y Prif Gwnstabl ar gynlluniau effeithlonrwydd yr Heddlu bod tua £10.9 miliwn o enillion gwirioneddol wedi'u cronni hyd at ddiwedd mis Mawrth 2010 gyda chynlluniau ar gyfer £13.7 miliwn o arbedion pellach dros y tair blynedd nesaf. Mae tanwario ar gyllidebau canolog a datganoledig yr Heddlu wedi galluogi cyfraniad ychwanegol o £2.9 miliwn i gronfeydd ariannol wrth gefn yr Awdurdod. Daw hyn o ganlyniad i ddull mwy gofalus o wario gyda'r nod o atgyfnerthu sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod cyn y cyfyngiadau ariannu anodd a ddisgwylir yn y dyfodol agos.

### Roedd gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol cadarn

16. Mae gan yr Awdurdod hanes o brosesau rheoli ariannol effeithiol. Yn benodol, deuthum i'r casgliadau canlynol:

- roedd systemau rheolaeth ariannol fewnol cadarn yn cael eu cynnal;
- roedd archwiliadau mewnol yn bodloni safonau Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol;
- roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau mai dim ond lle y mae darpariaeth benodol iddo ymgymryd â thrafodion y mae'r Awdurdod yn gwneud hynny;
- cafwyd bod fframwaith moesegol yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol ynghyd â'r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd.

### Roedd prif systemau ariannol yr Awdurdod yn addas at y diben

17. Mae fy adolygiad o systemau ariannol yr Awdurdod wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a lle y bo angen, profi'r ffordd y gweithredir rheolaethau mewnol neu ddibynnu ar waith archwilio mewnol am sicrwydd bod y rheolaethau yn effeithiol.

18. Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar brif systemau ariannol yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Trafodwyd a chytunwyd ar nifer fach o faterion gyda swyddogion, i sicrhau parhad gweithdrefnau effeithiol ar gyfer gweithredu systemau ariannol. Nid oes materion penodol y mae angen i mi dynnu sylw'r aelodau atynt.

## Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

19. Wrth archwilio cyfrifon yr Awdurdod bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau Gwerth am Arian yr Awdurdod ar gyfer 2009-10 yn Atodiad 1.

20. Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon blynyddol, mae ffynonellau pwysig eraill o sicrwydd wedi dod o waith perfformiad ac arolygu a gynhaliwyd gan asiantaethau eraill gan gynnwys Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, y Comisiwn Archwilio a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

21. Roedd y Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso systemau'r Awdurdod yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull hwn yn fanwl yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

22. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'm gwaith yn y maes hwn ar gyfer 2009-10 yr hoffwn dynnu eich sylw atynt.

23. Cynhelir gwaith ychwanegol ar arloesi ac effeithlonrwydd. Bydd y gwaith hwn yn ystyried a yw'r prosiect 2011+ a'r Awdurdod a'r Heddlu yn mabwysiadu dulliau arloesi effeithiol fel modd i wella darpariaeth gwasanaethau yn wyneb y pwysau o alw cynyddol ac adnoddau cyfyngedig. Caiff y negeseuon allweddol o gydastudiaeth y Comisiwn Archwilio, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru, sef *Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu*, eu defnyddio i lywio ein hadolygiad.

24. Byddaf yn cwrdd ag Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i drafod cynigion ar gyfer cydweithio ar waith perfformiad yn 2011.

## Atodiad 1

# Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| |
|---|
| **Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol** |
| Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd. |
| **Cyfrifoldebau'r Archwilydd** |
| Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i ddod i'r casgliad, o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ganddo ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym Mharagraff 48 o'r Cod.<br>Cyflwynaf adroddiad os yw materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw’r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir. |
| **Casgliad** |
| Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2009-10 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.<br>Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw’r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.<br>Ar sail Datganiad Llywodraethu'r Awdurdod ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2009-2010, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i roi cefnogaeth briodol i'w gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol gyda'r Awdurdod ac wedi gwneud argymhellion i wella ei drefniadau. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn fy Llythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett<br>Archwilydd Penodedig<br>Tachwedd 2010 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>Uned 4, Evolution, Pentref Busnes Lakeside<br>Parc Dewi Sant<br>Ewlo CH5 3XP |

Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2009-10 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu a, lle y bo angen, gyflwyno adroddiad i aelodau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

Atodiad 3

## Cyflawni ein gwaith

| Yr hyn y bwriedir ei gyflawni | Dyddiad Targed | Dyddiad cwblhau gwirioneddol |
|---|---|---|
| Strategaeth Amlinellol | Mai 2010 | Mai 2010 |
| Adroddiadau i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu (ISA260) | Medi 2010 | Medi 2010 |
| Barn Archwilio ar gyfrifon 2009-2010 | Medi 2010 | Medi 2010 |
| Casgliad Gwerth am Arian | Tachwedd 2010 | Rhagfyr 2010 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Tachwedd 2010 | Rhagfyr 2010 |

*Noder: Nid oedd angen cwblhau'r asesiad arfaethedig o Ddefnydd yr Heddlu o Adnoddau eleni ond roedd angen y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer hwn o hyd i lywio fy nghasgliad ar y trefniadau gwerth am arian.*

# Atodiad 4

## Ffi archwilio

Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2009-10 y ffi archwilio arfaethedig, sef £82,700 (ynghyd â TAW). Mae'r tabl isod yn nodi fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar gyfer 2009-10, ar y sail bod rhywfaint o waith ar berfformiad yn mynd rhagddo o hyd.

**Dadansoddiad o ffi archwilio arfaethedig a ffi archwilio wirioneddol 2009-2010**

| Maes y cod | Ffi arfaethedig 2009-2010 (£) | Ffi wirioneddol 2009-2010 (£) |
|---|---|---|
| Cyfrifon Ariannol | 42,169 | 42,169 |
| Perfformiad | 40,531 | 40,531 |
| **Cyfanswm** | **82,700** | **82,700** |

Yn ogystal â'r ffi archwilio a nodir uchod, ceir ffi untro ychwanegol o hyd at £3,570 (ynghyd â TAW) ar gyfer ein hadolygiad cychwynnol o driniaeth gyfrifyddu'r Awdurdod o Gynllun Menter Cyllid Preifat Gorsaf Heddlu Llanelwy, yr oedd yn ofynnol iddo gael ei ddangos ar wyneb y fantolen am y tro cyntaf yn sgil y broses o newid i gyfrifon sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk